SL(5)405 - Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019

Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 ("y prif Orchymyn") yn creu cynllun ar gyfer dyroddi a thalu hysbysiadau cosb am droseddau penodol sy'n ymwneud â physgota môr. Mae'n dirymu Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau'r Gymuned) (Hysbysiadau Cosb) 2008 gan ddisodli hwnnw â chynllun sy'n gymwys i droseddau a grëir o dan ddeddfwriaeth ddomestig yn ogystal â'r rhai sy'n codi o ganlyniad i dorri cyfyngiad cymunedol gorfodadwy neu rwymedigaeth arall. Daw i rym ar 22 Mawrth 2019.

Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar y Gorchymyn hwnnw ar 18 Mawrth o dan Reol Sefydlog 21.2(i). Mae'n ymddangos bod amheuaeth a yw'n intra vires, fel a ganlyn:

> "Mae'r rhagarweiniad yn dyfynnu adran 294 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sy'n rhoi pwerau sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb i Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod cenedlaethol priodol mewn perthynas â Chymru neu longau ym mharth Cymru (adran 294(8)). Yn yr is-adran honno, rhoddir pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr neu longau y tu allan i barth Cymru.
>
> Fodd bynnag, mae erthygl 1(3) o'r Gorchymyn yn nodi "Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru, parth Cymru, a chychod pysgota Cymru ym mha le bynnag y bônt." O ystyried y cyfyngiad daearyddol clir yn adran 294(8), ymddengys fod yr elfen sy'n nodi 'ym mha le bynnag y bônt' yn erthygl 1(3) y tu hwnt i bwerau Gweinidogion Cymru."

Mae'r Gorchymyn presennol yn diwygio'r prif Orchymyn er mwyn sicrhau ei fod yn intra vires. Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn yn dileu'r cyfeiriad yn erthygl 1(3) at gychod pysgota Cymru "ym mha le bynnag y bônt" gan gyfyngu'r defnydd o'r offeryn i Gymru ac i barth Cymru. Daw i rym ar 21 Mawrth 2019.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd ar 19 Mawrth i egluro y byddai'r Gorchymyn presennol yn torri'r "rheol 21 diwrnod" i'w alluogi i newid y prif Orchymyn cyn i'r Gorchymyn hwnnw ddod i rym ar 22 Mawrth.

Gweithdrefn

Negyddol

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Yn ei ymateb i'r adroddiad drafft ar y prif Orchymyn a ystyriwyd gan y Pwyllgor, dywedodd y Llywodraeth:

> "Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn derbyn y pwynt technegol yn yr adroddiad uchod sy'n ymwneud â chwmpas adran 294 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Bydd OS sy'n diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 er mwyn ymdrin â'r mater hwn yn cael ei osod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl. Bydd y rheol 21 o ddiwrnodau yn cael ei thorri mewn cysylltiad â'r OS diwygio er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ran o Orchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 ultra vires pan fydd yn dod i rym."

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod gwaith eisoes ar y gweill i gywiro'r gwall, a bod modd gwneud hynny cyn i'r prif Orchymyn ddod i rym. Mae hon yn enghraifft ardderchog o gyfiawnhad dros dorri'r "rheol 21 diwrnod" ar gyfer dod ag offeryn statudol i rym.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau rhinweddau uchod.